BT Group | In partnership with AbilityNet

# Dechrau defnyddio'r rhyngrwyd

**Eisiau mynd ar-lein ond yn ansicr lle i ddechrau?**

Gwyddom y gall ymddangos yn llethol ac mae'n siŵr bod gennych chi lawer o gwestiynau: felly rydyn ni yma i helpu.

Gallai mynd ar-lein a datblygu eich sgiliau rhyngrwyd newid eich bywyd; gyda dim ond ychydig o gliciau, gallwch siopa ar-lein, trefnu apwyntiadau, gwrando ar gerddoriaeth a dal i fyny gyda'ch hoff sioe deledu. Mae hefyd yn cynnig cyfle i chi ddarganfod pob math o gyfleoedd newydd.

Yn ogystal, nid yw mor frawychus na chymhleth ag y gallai ymddangos. Bydd y ddalen hon yn rhoi canllaw cam wrth gam syml i chi ar sut i ddechrau eich taith ar-lein.

*Gall cyfarwyddiadau amrywio yn ôl model eich dyfais.

## Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

1. Sut i gysylltu dyfais â'r rhyngrwyd yn eich cartref
2. Sut i chwilio am rywbeth ar y rhyngrwyd

## Cysylltu i'r rhyngrwyd gartref:

1. Gwnewch nodyn o enw a chyfrinair eich rhwydwaith wi-fi. Gallai hyn fod ar sticer ar eich llwybrydd wi-fi a/neu drwy gerdyn y gellir ei dynnu neu'r bocs y cyrhaeddodd ynddo.
2. Trowch eich dyfais ymlaen (ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur).
3. Dewiswch 'settings' ar eich dyfais. Dangosir hyn fel eicon cogen fel arfer.

   Os ydych ar gyfrifiadur, gallai fod angen i chi ddewis y bar chwilio yn y ddewislen hafan i ddechrau (gofynnwch i'ch cynorthwyydd os ydych yn ansicr).
4. Dewiswch yr eicon wi-fi. .
5. Trowch y wi-fi ymlaen, os nad yw eisoes ymlaen. (Os yw ymlaen, bydd yr eicon wi-fi yn wyn). Bydd y ddyfais yn dechrau rhwydweithiau sydd ar gael i gysylltu â nhw - gall hyn gymryd munud neu ddau).
6. Dewiswch yr enw rhwydwaith a nodwyd yng ngham 1.
7. Nodwch y cyfrinair wi-fi a nodwyd gennych yng ngham 1.
8. Nodwch y cyfrinair a dewis connect. Byddwch yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng priflythrennau a llythrennau bychain: gallwch glicio ar y botwm 'dangos cyfrinair' (neu eicon sy'n edrych fel hyn ) i gadarnhau'r hyn rydych wedi'i ysgrifennu.
9. Bydd y ddyfais yn cysylltu â'r wi-fi yn awr

Y tro nesaf y byddwch yn troi eich dyfais ymlaen, os ydych yn agos i'r un llwybrydd wi-fi, cewch eich cysylltu'n awtomatig (Ar yr amod eich bod wedi dewis yr opsiwn cysylltu'n awtomatig).

BT Group | In partnership with AbilityNet

# Dechrau defnyddio'r rhyngrwyd parhad

## Sut i chwilio am rywbeth ar y rhyngrwyd

Felly, rydych wedi cysylltu â'r rhyngrwyd. Beth nesaf? Wel, i edrych ar wefan bydd angen i chi ddefnyddio porwr gwe (rhaglen sy'n eich galluogi i chwilio'r rhyngrwyd).

Y porwyr gwe mwyaf cyffredin yw:

- Microsoft Edge
- Google Chrome
- Mozilla Firefox
- Safari

Dylai bod un o'r rhain wedi'u gosod ar eich dyfais.

## Chwilio ar-lein

1. Dewch o hyd i'r eicon ar gyfer y porwr a chlicio i'w agor. Yna bydd eich dyfais yn arddangos hafan.




2. Cliciwch ar y bar chwilio ar frig y dudalen, a elwir weithiau'n 'far cyfeiriad'.
3. Nawr teipiwch eich ymholiad neu enw'r dudalen gwe yr hoffech fynd iddi yn y bar chwilio yna pwyso enter/return.
4. Bydd rhestr o opsiynau yn ymddangos yn awr, dewiswch y canlyniad sy'n edrych yn fwyaf addas i chi.

**Os hoffech gadw'r dudalen yr ydych wedi'i chanfod yn eich chwiliad hwn ar agor ond eich bod eisiau dechrau chwilio am rywbeth arall ar yr un pryd, gallwch agor tab newydd gan ddefnyddio'r botwm hwn.**

+

Fel arall, os ydych chi eisiau ymweld â'r dudalen hon yn rheolaidd, gallwch gadw'r dudalen fel ffefryn drwy ddefnyddio'r eicon seren.

☆

Ac mae mor syml â hynny. Mae'n amser archwilio'r we!
I sicrhau bod y gwefannau rydych chi'n clicio arnynt yn ddiogel, dylech ond treulio amser ar wefannau gyda'r eicon clo-clap yn unig yn y bar cyfeiriad.

**Dyma rywfaint o awgrymiadau chwilio defnyddiol:**

- Y tywydd yn eich ardal
- Amseroedd cau archfarchnadoedd
- Y bargeinion gorau ar gyfer gwyliau munud olaf
- Eich hoff artist cerddorol
- Digwyddiadau yn eich ardal leol

**Cyngor, awgrymiadau a dysgu pellach:**

Pan fyddwch chi wedi meistroli hanfodion y byd ar-lein, does dim diwedd i'r hyn gallwch chi ei ddarganfod. Mae rhagor o ganllawiau defnyddiol ar gael yn bt.com/seniorskills. Cliciwch y ddolen hon, neu os yw'r daflen wedi cael ei hargraffu, gallwch chi deipio'r cyfeiriad yn y bar chwilio ar eich porwr gwe.